

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2022

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2022.

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

23 Tachwedd 2022

Disgrifiad

1. Mae *Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2022* ("Rheoliadau 2022") yn diwygio *Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992* (OS 1992/3238) ('Rheoliadau 1992').
2. Mae Rheoliadau 1992 yn rhagnodi'r rheolau ar gyfer cyfrifo'r cyfraniadau ardrethu annomestig sydd i'w talu gan awdurdodau bilio (yng Nghymru, y 22 o gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol) i'r gronfa ardrethi annomestig. Gwneir diwygiadau yn flynyddol i Atodlen 4 (Ffigurau Poblogaeth Oedolion) o Reoliadau 1992 i sicrhau bod y sail ar gyfer cyfraniadau oddi wrth awdurdodau bilio i'r gronfa ardrethi yn dal yn gyfredol. Mae angen gwneud diwygiadau i Reoliadau 1992 i alluogi awdurdodau bilio i gyfrifo eu cyfraniadau ardrethu annomestig ar gyfer 2023-24.

Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

3. Nid oes unrhyw faterion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor.

Y cefndir deddfwriaethol

4. Mae adran 60 o *Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988* ('Deddf 1988'), a pharagraffau 4 a 6 o Atodlen 8 iddi, yn nodi'r pŵer i wneud rheoliadau mewn perthynas â chyfraniadau ardrethu annomestig gan awdurdodau bilio.
5. Cafodd y pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan adran 60 o *Ddeddf 1988* a pharagraffau 4 a 6 o Atodlen 8 iddi, ei drosglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol gan *Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999* (OS 1999/672). Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny wedyn i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.
6. Cafodd *Deddf 1988* ei diwygio gan *Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012* gan ddarparu'n benodol fod y pwerau amrywiol yn adran 60 o *Ddeddf 1988* ac Atodlen 8 iddi (gan gynnwys y rhai i wneud rheoliadau) yn breinio yng Ngweinidogion Cymru.
7. Mae Rheoliadau 2022 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.
8. Mae paragraff 4(6) o Atodlen 8 i *Ddeddf 1988* yn ei gwneud yn ofynnol, er mwyn i Reoliadau 2022 gael effaith am flwyddyn ariannol benodol, fod rhaid iddynt ddod i rym cyn 1 Ionawr yn y flwyddyn ariannol flaenorol, sef yn ddim hwyrach na 31 Rhagfyr 2022 am y flwyddyn ariannol 2023-24.

Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

9. Mae'n ofynnol i awdurdodau bilio dalu cyfraniadau ardrethu annomestig i Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r ardrethi y maent yn eu casglu oddi wrth eiddo annomestig yn eu hardaloedd. Telir yr holl ardrethi a gesglir gan awdurdodau bilio i'r gronfa ardrethu annomestig ynghyd â'r ardrethi a gesglir gan Lywodraeth Cymru oddi wrth dalwyr ardrethi'r Rhestr Ganolog.
10. Dosberthir y refeniw cyfunol i awdurdodau unedol Cymru ac i'r comisiynwyr heddlu a throseddu ar sail ffigurau poblogaeth oedolion fel rhan o'r setliadau llywodraeth leol blynyddol. Mae awdurdodau bilio yn gwneud taliadau i'r gronfa ar sail amcangyfrifon a gwblheir ganddynt cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Mae'r awdurdodau bilio wedyn yn cyflwyno ffurflenni wedi'u harchwilio ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol ac yn cael taliadau oddi wrth Weinidogion Cymru neu'n gwneud taliadau ychwanegol i'r gronfa fel y bo'n briodol.
11. Mae Rheoliadau 2022 yn diwygio Rheoliadau 1992 drwy amnewid Atodlen 4 newydd (Ffigurau Poblogaeth Oedolion). Defnyddir y ffigurau yn Atodlen 4 i bennu trothwy i awdurdodau bilio gyfrifo eu cyfraniadau amodol i'r gronfa ar gyfer 2023-24.
12. Os na wneir y newidiadau hyn, bydd yr amcangyfrifon a wneir gan awdurdodau bilio ar gyfer eu cyfraniadau i'r gronfa ardrethu yn anghywir gan y byddant yn seiliedig ar ffigurau poblogaeth y flwyddyn flaenorol, nad ydynt yn gyfredol.

Ymgynghori

13. Mae'r diwygiadau hyn o ddiddordeb i'r awdurdodau bilio perthnasol yn unig ac nid oes ganddynt unrhyw effaith ar dalwyr ardrethi. Mae'r ffigurau'n cael eu diweddarau'n flynyddol ac nid oes ganddynt unrhyw oblygiadau polisi. O'r herwydd, nid oes unrhyw ymarfer ymgynghori wedi'i gynnal.

Asesiad Effaith Rheoleiddiol

14. Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i lunio ar gyfer Rheoliadau 2022 gan eu bod yn gwneud diwygiadau ffeithiol i ddiweddarau Rheoliadau 1992 a chan nad ydynt, wrth wneud hynny, yn newid effaith y polisi mewn unrhyw ffordd arwyddocaol. Mae hyn yn unol â'r polisi a nodir yng *Nghod Asesiad Effaith Rheoleiddiol Gweinidogion Cymru ar gyfer Is-ddeddfwriaeth*.